# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adolygiad Addysg Uwch y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cyflwyniad gan Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, yr Athro Keith Robbins, ar 8 Chwefror 2001

Yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru ac (hyd yn oed yn fwy felly yng nghyd-destun y Deyrnas Gyfunol) mae Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn wahanol mewn sawl ystyr pwysig:

- hi yw'r sefydliad hynaf sy'n cynnig graddau yng Nghymru
- fe'i lleolir yn y dref brifysgol leiaf yng Nghymru, mewn amgylchedd wledig
- mae'n benodol iawn yn sefydliad y dyniaethau/gwyddorau cymdeithasol
- mae campws y brifysgol yn gryno ac o bwys pensaernïol

Mae'r agweddau hyn oll yn rhai cadarnhaol ond mae iddynt hefyd eu hanfanteision:

- Mae ei henw da yn ddi-lychwin ond teimlodd ers tro yr angen i fod yn rhan o 'rhywbeth mwy'. Rhoddodd bwys mawr ar ei pherthynas â Phrifysgol Cymru a'r potensial, boed wedi ac heb ei wireddu, a gynigia'r berthynas honno.
- Mae ei lleoliad yn rhoi iddi bwysigrwydd allweddol yn economi'r ardal ar adeg pan fod yr ardal honno yn dioddef anawsterau mawr yn y diwydiant amaeth ac, yn ddiweddar iawn, yn dilyn y bwriad i gau ffatri Dewhirst yn Llanbed. Mae ein cysylltiadau gyda chyrff lleol felly'n fater o'r pwys mwyaf.
- Erys ei hymrwymiad i werthoedd a gysylltir yn draddodiadol gyda graddau'r celfyddydau yr arbenigodd arnynt ond cydnabu, ble'n bosib, fod rhaid iddynt gynnwys elfennau sy'n eu gwneud yn wahanol os yw'r Brifysgol yn mynd i allu cystadlu'n effeithiol gyda sefydliadau mwy. Mae'r ffaith ei bod yn canolbwyntio ar y pynciau hyn felly'n golygu ei

bod yn agored i effeithiau’r anwadalwch mewn galw a ffasiwn (h.y. cwymp yn y galw am Ieithoedd Modern dros gyfnod o ddegawd a arweiniodd at gau’r adran). Yn wyneb y gostyngiad ymddangosiadol yn y galw gan fyfyrwyr 3 blynedd llawn-amser‘ traddodiadol’, llwyddodd i ehangu ei gwaith ymhlith myfyrwyr rhan-amser a graddedigion. Mae llawer o’r gwaith hwnnw, fodd bynnag, yn ‘ddysgu o hirbell’ ac mae’n lleihau’r galw am lety preswyl – ac yn effeithio yn ei dro ar sefyllfa ariannol y Brifysgol. Llwyddwyd i ddatblygu ymhellach y gwaith trawiadol o arloesol a wnaeth wrth ddarparu cyrsiau ar gyfer y sawl sy’n gweithio yn y Sector Wirfoddol ac ym maes cyrsiau hirbell ar gyfer dysgwyr Cymraeg, gan wella enw da PCLl yn y meysydd hynny’n arbennig. Mae’r datblygiadau hyn yn creu sefydliad sydd yn fwy amrywiol ac eang ei orwelion na’r canfyddiad traddodiadol ohono. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil yn parhau’n fater o’r pwys mwyaf i’r Brifysgol ac mae ei awydd i gynhyrchu gwaith ymchwil o’r safon uchaf hefyd yn parhau mewn rhai meysydd yn arbennig. Mae’n gwrthod y syniad y gellir categoreiddio prifysgolion yn rhai ‘ymchwil’ a ‘galwedigaethol’ gan honni’n hytrach fod cymysgedd o’r pwysleisiau hynny, i raddau gwahanol, yn un o nodweddion amlycaf y system yng Nghymru.

- Mae atyniadau’r brifysgol, a hynny braidd yn baradocsaidd, yn gysylltiedig â’i anhygyrchedd cymharol (nid oes ganddi wasanaeth trenau ac mae’r cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus hefyd yn wael) a’r ffaith mai poblogaeth isel a gwasagaredig sydd yn yr ardal gyfagos. Denodd ei myfyrwyr dros y blynyddoedd o bob rhan o Gymru a Lloegr ond anodd yw cynnal ei ‘delwedd’ mewn marchnad gystadleuol pan fo gwahanol bwysau eraill yn awgrymu fod myfyrwyr yn tueddu’n gynyddol i fynd i sefydliad ‘lleol’ neu un sy’n gyfleus i gartref. Ni ddylid er hynny osgoi nac anwybyddu’r anawsterau amlwg sy’n ein hwynebu yn y cyswllt hwn, er bod y ffigyrau diweddaraf oll ar gyfer 2001 yn dangos gwelliant bychan.

--------------------------------------

Mae PCLl yn awyddus i chwarae ei rhan lawn yn system brifysgol y Deyrnas Gyfunol ond gymaint yw’r gofynion gweinyddol a wyneba, o ran adrodd i gyrff allanol ac ymdopi â chynlluniau ‘Trydedd Cenhadaeth’, fel fod sefydliad bychan yn ei chael yn anodd darparu ystod lawn o wasanaethau ategol ar y lefel a ddarperir gan sefydliadau mwy gyda’u hadnoddau mwy, yn fyfyrwyr ac yn ariannol. Y cyd-destun hwn felly sydd wedi arwain at y trafodaethau helaeth gyda golwg ar uno gyda Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Disgwylir penderfyniad ar y mater hwnnw ym mis Ebrill yn dilyn proses eang o ymgynghori mewnol ac allanol. Sylfaen unrhyw uno posib yw y byddai’r ddau sefydliad yn parhau yn eu gwahanol leoliadau ond y byddent yn elwa o uno, neu, yn absenoldeb hynny, rhyw bartneriaeth arall yng nghyd-destun y trafodaethau o fewn i Brifysgol Cymru. Mae’r cynllun sefydliadol annibynnol yn rhagdybio’r gallu i weithredu heb gymorth gwerthfawr presennol y ‘rhwyd diogelwch’.